Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cludiant rhwng y cartref a'r ysgol

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cludiant rhwng y cartref a'r ysgol

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa gyfreithiol bresennol ar ddyletswyddau a phwerau awdurdodau lleol i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol am ddim i ddisgyblion, neu 'deithio gan ddysgwyr' fel y'i gelwir mewn deddfwriaeth. Mae'n nodi'r sefyllfa ar adeg cyhoeddi'r canllaw hwn.

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd wrth iddynt gynorthwyo eu hetholwyr. Ni fwriedir iddi gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**



# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 7**

**2. Y sefyllfa gyfreithiol a chanllawiau ..... 8**

**3. Asesu'r angen ..... 9**

**4. Y ddyletswydd i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ..... 10**

Pellter cerdded ..... 10

Ysgol addas agosaf a dewis rhieni ..... 11

**5. Darpariaethau dewisol ..... 13**

**6. Deddfwriaeth gydraddoldeb a chludiant ysgolion ..... 14**

**7. Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anableddau ..... 15**

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ..... 15

Anawsterau dysgu ac anableddau ..... 16

Y ddyletswydd addasiadau rhesymol ..... 16

**8. Diogelwch ..... 18**

**9. Codi tâl am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol ..... 19**

**10. Cymorth ariannol ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ..... 20**

Cynllun teithio bws £1 i blant a phobl Ifanc ..... 20

Lwfans Cynhaliaeth Addysg ..... 20

Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach ..... 20

Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ..... 21

**11. Datblygiadau diweddar ..... 22**

**12. Ble i gael rhagor o wybodaeth ..... 24**

# 1. Cyflwyniad

**Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa gyfreithiol bresennol ar ddyletswyddau a phwerau awdurdodau lleol i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol am ddim i ddisgyblion, neu 'deithio gan ddysgwyr' fel y'i gelwir mewn deddfwriaeth. Mae'n nodi'r sefyllfa ar adeg cyhoeddi'r canllaw hwn, yn ogystal â manylion am ffynonellau cymorth ariannol posibl a sut i ddod o hyd i ragor o wybodaeth.**

Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru wedi llunio a chynnal **ymgynghoriad ar ganllawiau wedi'u diweddaru ynghylch teithio gan ddysgwyr** ond ni chyhoeddodd y canllawiau hyn cyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026. Nid oedd y canllawiau drafft yn mynd i newid y gyfraith na gwneud darpariaeth wahanol, dim ond diweddaru'r ieithwedd i adlewyrchu polisïau eraill a deddfwriaeth arall a gyflwynwyd ers **cyhoeddi'r canllawiau yn 2014**.

Dywedodd Llywodraeth newydd Cymru, a ddaeth i rym yn dilyn yr etholiad, **y bydd yn adolygu'r ddeddfwriaeth teithio gan ddysgwyr**. Felly, nid yw'r canllawiau wedi'u diweddaru wedi'u cyhoeddi; bydd angen aros am ystyriaeth fanylach.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddatblygiadau diweddar ym Mhennod 11 o'r canllaw hwn.

# 2. Y sefyllfa gyfreithiol a chanllawiau

## Sefydlwyd y gyfraith bresennol ar gludiant rhwng y cartref a’r ysgol yn 2008, gyda'r canllawiau gweithredol diweddaraf yn dyddio'n ôl i 2014.

Y brif ddeddfwriaeth o ran cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yng Nghymru yw **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008** (‘Mesur 2008’ neu ‘Y Mesur’). Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru ganllawiau statudol hefyd, sef y **Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr** 2014, (‘Canllawiau 2014’) sy'n amlinellu darpariaethau statudol, dyletswyddau penodol a chyfrifoldebau cyrff perthnasol. Mae **Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009** yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ei chyhoeddi.

Mae adran 444 o **Ddeddf Addysg 1996** yn ei gwneud yn drosedd ar ran rhiant os yw disgybl sydd wedi'i gofrestru yn methu â mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Gwnaeth adran 20 o Fesur 2008 ddiwygio adran 444 i ddarparu y bydd gan riant amddiffyniad rhag erlyniad os bydd awdurdod lleol wedi methu â chyflawni, pan fo'n ofynnol, ei ddyletswydd statudol o dan y Mesur i wneud trefniadau i hwyluso cludo fel bod eu plant yn mynychu'r ysgol.

# 3. Asesu'r angen

**Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr sydd o dan 19 oed ac sydd fel arfer yn byw yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys y rhai y mae rheidrwydd cyfreithiol arnynt i ddarparu cludiant ar eu cyfer a'r rhai y maent yn dymuno darparu cludiant ar eu cyfer yn ôl eu disgresiwn eu hunain wrth asesu anghenion teithio.**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i:

- anghenion unrhyw ddysgwyr anabl a dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu;
- anghenion penodol dysgwyr sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn ffurfiol gan awdurdod lleol;
- oedran y dysgwr;
- y math o lwybr y disgwylir i'r dysgwr ei ddilyn rhwng y cartref a lleoliad yr addysg neu'r hyfforddiant.

Wrth asesu anghenion teithio dysgwyr, rhaid i awdurdodau lleol ystyried y ffaith na ddylai trefniadau teithio a wneir ganddynt yn sgil asesiad beri lefelau afresymol o straen, cymryd amser afresymol, na bod yn 'beryglus'. Mae Pennod 8 o'r canllaw hwn yn trafod ystyriaethau diogelwch.

Nid yw Mesur 2008 yn nodi terfyn amser ar gyfer y teithiau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion dysgwyr unigol wrth ystyried a yw hyd y daith yn rhesymol.

# 4. Y ddyletswydd i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol

**Mae rhai o ddarpariaethau Mesur 2008, fel yr eglurwyd yng nghanllawiau 2014, yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant am ddim.**

**Rhaid** i awdurdodau lleol ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol os bydd disgybl yn byw bellter penodol o'r ysgol addas agosaf, neu y tu hwnt i'r pellter hwnnw. Dim ond at gludiant rhwng y cartref a'r ysgol y cyfeiria'r ddyletswydd hon, ac nid cludiant yn ystod y diwrnod ysgol, er enghraifft rhwng ysgol a choleg.

## Pellter cerdded

Mae adran 3 o Fesur 2008 yn nodi'r meini prawf ar gyfer pellter er mwyn i ddysgwyr hawlio cludiant am ddim i'r ysgol addas agosaf ac oddi yno. Cyfeirir at bellteroedd o dan y trothwy fel 'pellter cerdded'. Mae dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr sydd o fewn oedran ysgol gorfodol ac sy'n byw y tu hwnt i'r pellter cerdded perthnasol.

O ran ysgolion **uwchradd**, y pellter cerdded yw 3 milltir. Golyga hyn y gall disgyblion sy'n byw **3 milltir neu fwy** o'r ysgol addas agosaf hawlio cludiant am ddim.

O ran ysgolion **cynradd**, y pellter cerdded yw 2 filltir. Golyga hyn y gall disgyblion sy'n byw **2 filltir neu fwy** o'r ysgol addas agosaf hawlio cludiant am ddim.

**Nid oes dyletswydd statudol** ar awdurdod lleol i ddarparu cludiant am ddim i **ddysgwyr ôl-16** sy'n parhau â'u hastudiaethau mewn addysg neu hyfforddiant pellach prif ffrwd. Fodd bynnag, mae ganddynt bwerau dewisol i wneud hynny (gweler Pennod 5 o'r canllaw hwn).

Mae'r Mesur yn nodi y dylid mesur y pellter cerdded 'ar hyd y ffordd fyrraf sydd ar gael'. Ystyrir bod ffordd 'ar gael' os yw'n ddiogel (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol) i ddysgwr heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben ei hun, (neu gyda hebryngwr sy'n oedolyn pe byddai oed a lefelau dealltwriaeth y dysgwr yn galw am ddarparu hebryngwr). Mae rhagor o fanylion ym Mhennod 8 o'r canllaw hwn.

Os nad yw ffordd 'ar gael' ac nad oes llwybr cerdded arall ar gael o fewn y pellter perthnasol, ni ellir disgwyl i'r dysgwr gerdded i'r ysgol addas agosaf, hyd yn oed os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r pellter cerdded statudol. Mewn achosion felly, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu cludiant am ddim i'r dysgwr i'r ysgol addas agosaf ac oddi yno. Mae Canllawiau 2014 yn cynnwys manylion ynghylch asesu risg sy'n gysylltiedig â llwybrau cerdded i'r ysgol. Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y canllawiau hyn.

## Ysgol addas agosaf a dewis rhieni

Mae Canllawiau 2014 yn benthyca **ystyr 'ysgol addas'** o'r diffiniad ym Mesur 2008 o 'mannau perthnasol', sef:

> *ble mae'r "addysg neu'r hyfforddiant yn addas mewn perthynas ag oed, gallu a dawn y dysgwr ac unrhyw anawsterau dysgu a allai fod ganddo".*

Wrth benderfynu a yw ysgol yn 'addas', mae Canllawiau 2014 yn nodi bod angen i awdurdodau lleol ystyried addasrwydd yr ysgol wrth benderfynu a yw'r lleoliad yn briodol ar gyfer y dysgwr.

Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu pa ysgol addas yw'r un 'agosaf' i'r dysgwr, yn unol â'i bolisi teithio gan ddysgwyr a'i bolisi addysg ei hun. Rhaid i awdurdodau lleol nodi sut y dynodir yr ysgol addas agosaf a chyhoeddi'r wybodaeth hon yn eu polisi teithio gan ddysgwyr yn unol â darpariaethau a amlinellir yn **Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009**.

Nid yw dewis iaith neu iaith gyntaf plentyn neu riant, na ffydd grefyddol na chred y plentyn, o reidrwydd yn golygu yr ystyrir bod ysgol yn addas at y dibenion hyn. Fodd bynnag, yn sgil heriau adolygiadau barnwrol, mae rhai awdurdodau lleol wedi adolygu eu polisïau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ac maent bellach yn ystyried dewisiadau iaith a ffydd wrth benderfynu ar yr ysgol 'agosaf'.

Mae'r un meini prawf oedran a phellter yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal â'r rhai nad ydynt yn derbyn gofal. Diffinir plentyn sy'n derbyn gofal fel person o dan 18 oed sydd yng ngofal yr awdurdod lleol, neu sy'n cael llety am fwy na 24 awr gan awdurdod lleol wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Gallai'r gofal hwn fod yn lleoliad gyda gofalwyr maeth, mewn cartrefi preswyl neu gyda rhieni neu berthnasau eraill.

Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth bod rhaid i'r dysgwr fynychu'r ysgol addas agosaf i'r cartref yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal yn yr un modd ag y mae'n berthnasol i blant nad ydynt yn derbyn gofal. Mater i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn yw penderfynu ble y dylai fynd i'r ysgol. Efallai mai ysgol heblaw'r ysgol addas agosaf yw'r ysgol a ddewisir, oherwydd yr angen am i gynnal parhad mewn addysg neu gyswllt â brodyr a chwiorydd neu ffrindiau er mwyn hyrwyddo llesiant. Os felly, bydd cludiant yn cael ei ddarparu.

O dan **Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998**, gall rhieni a dysgwyr fynegi dewis dros ysgol benodol. Os **caniateir y dewis** ac nad yr ysgol a ddewisir yw'r **ysgol addas agosaf** y cytunir arni gan yr awdurdod lleol, **nid oes gan y dysgwr hawl i ddarpariaeth cludiant am ddim.** Fodd bynnag, mae Mesur 2008 yn rhoi pwerau dewisol i awdurdodau lleol i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol i ddysgwyr. Trafodir hyn ym Mhennod 5 o'r canllaw hwn.

# 5. Darpariaethau dewisol

**Yn ogystal â'r ddyletswydd i ddarparu cludiant i rai disgyblion, mae Mesur 2008 yn rhoi pwerau dewisol i awdurdodau lleol i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol i ddysgwyr eraill nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim o dan y ddyletswydd statudol. Mae'r rhain yn cael eu hegluro ymhellach yng nghanllawiau 2014.**

Nid oes rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio eu **pwerau** dewisol i ddarparu cludiant am ddim neu gludiant â chymorth. Fodd bynnag, os yw awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau dewisol, rhaid i'r awdurdod sicrhau bod y polisi **yn cael ei gymhwyso i bob dysgwr sy'n wynebu amgylchiadau tebyg yn ardal yr awdurdod hwnnw**. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod unrhyw bolisi yn deg, yn rhesymol ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol er mwyn sicrhau nad yw'n gwahaniaethu'n anghyfreithiol rhwng dysgwyr wrth ddefnyddio ei bwerau dewisol. Tynnwyd sylw at hyn gan y llysoedd mewn achosion o adolygiadau barnwrol.

Er nad yw'n ofynnol o dan y gyfraith i awdurdodau lleol gynnig cludiant am ddim, rhai enghreifftiau o adegau y gellir defnyddio'r ddarpariaeth cludiant yn ôl disgresiwn yw ar gyfer:

- plant o dan 5 oed - mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion cludiant dysgwyr sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol, sydd mewn addysg feithrin ac sydd fel arfer yn byw yn ardal yr awdurdod;
- ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn ysgol addas agosaf - mae dyletswydd ar awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru o dan Fesur 2008 i 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg' wrth benderfynu pa ysgolion yw'r mwyaf addas i ddysgwyr yn eu hardal;
- ysgolion ffydd nad ydynt yn ysgol addas agosaf; a
- dysgwyr ôl-16 sy'n parhau â'u hastudiaethau mewn addysg bellach neu hyfforddiant prif ffrwd.

# 6. Deddfwriaeth gydraddoldeb a chludiant ysgolion

## Gall fod yn gyfreithlon i awdurdodau lleol drin rhai dysgwyr yn wahanol mewn perthynas â chludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae Atodlen 3, Rhan 2, adran 11 o **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn cynnwys eithriadau mewn cysylltiad â gwahaniaethu o ran crefydd neu gred mewn perthynas â darparu gwasanaethau. Mae'n nodi nad yw darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb, mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred, yn gymwys o ran cludiant i'r ysgol ac oddi yno. Felly, mae'n gyfreithiol i ddarparu triniaeth fwy ffafriol i ddisgyblion un grefydd neu gred na chrefydd neu gred o fath arall.

Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau nad yw eu polisïau cludiant yn gwahaniaethu'n anghyfreithiol mewn cysylltiad â nodweddion eraill a ddiogelir, neu'n mynd yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'u bod hefyd yn cydymffurfio â Chanllawiau statudol gweithredol Teithio gan Ddysgwyr.

# 7. Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anableddau

**Wrth benderfynu a yw disgybl yn mynychu ei ysgol addas agosaf, at ddibenion penderfynu a yw'n gymwys i gael cludiant am ddim, rhaid i awdurdod lleol ystyried addasrwydd yr ysgol honno drwy roi sylw i (ymysg pethau eraill) unrhyw anawsterau dysgu neu anableddau a allai fod ganddynt. Mae hyn yn cynnwys unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynllun Datblygu Unigol sydd ganddynt.**

## Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr 2014 yn defnyddio'r term 'Anghenion Addysgol Arbennig' (AAA), sef y term cyfreithiol blaenorol, ond sydd bellach wedi'i ddisodli gan y term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY) o dan **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** ('Deddf 2018'). ADY yw'r term a ddefnyddir yn y canllaw hwn.

Os yw disgybl ag ADY yn mynychu ei ysgol addas agosaf neu'r ysgol a enwir yn ei Gynllun Datblygu Unigol (ac ystyrir mai'r ysgol honno yw ei ysgol addas agosaf), a'i fod yn byw yn bellach na'r pellter cerdded statudol (2 filltir ar gyfer ysgol gynradd a 3 milltir ar gyfer ysgol uwchradd), mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol iddo.

Ystyrir bod gan ddysgwr ADY, dim ond os oes ganddo 'anawsterau dysgu' neu 'anabledd' sy'n galw am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY). Yn yr un modd, o dan yr hen drefn AAA, dim ond os oedd angen Darpariaeth Addysgol Arbennig (DAA) ar ddysgwr yr ystyrid bod ganddo AAA.

## Anawsterau dysgu ac anableddau

Mae **Mesur 2008** yn defnyddio'r termau 'anhawster dysgu' ac 'anabledd' yn yr un ystyr â rhan gyntaf y diffiniad o ADY yn **Neddf 2018** (a'r ddeddfwriaeth AAA flaenorol):

> Anhawster dysgu: anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy nag sydd gan y mwyafrif o bersonau yr un oed.
>
> Anabledd: anabledd sy'n atal neu'n llesteirio dysgwr rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn sefydliadau prif ffrwd.

Fodd bynnag, nid yw'r Mesur yn cynnwys yr amod bod rhaid i'w hanhawster dysgu neu eu hanabledd fod yn gymwys i gael DDdY (neu DAA cyn hynny) cyn y gellir ystyried y dysgwr ar gyfer cludiant am ddim. Mae'r Mesur yn darparu, os na all dysgwr sydd mewn oedran ysgol gorfodol gerdded (gyda chymorth neu hebddo) i'w ysgol addas agosaf, oherwydd anabledd neu anhawster dysgu, hyd yn oed os yw'r pellter i'r ysgol addas agosaf yn llai na'r hyd statudol ar gyfer y grŵp oedran, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio addas i'r plentyn. Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried pa drefniadau sy'n briodol i hwyluso'r dysgwr i fynychu'r ysgol yn unol â'i bolisi teithio i ddysgwyr.

Mae adran 4 y Mesur, mewn gwirionedd, yn creu gofyniad penodol i awdurdodau lleol addasu eu darpariaeth trefniadau teithio fel ei bod yn ddyletswydd ar yr awdurdod i wneud y trefniadau hynny os yw plentyn sydd ag anabledd neu anhawster dysgu yn byw yn nes at yr ysgol addas agosaf na'r pellteroedd cerdded penodedig, a bod angen gwneud trefniadau teithio i alluogi'r plentyn i fynychu'r ysgol honno.

## Y ddyletswydd addasiadau rhesymol

Mae'r ddyletswydd 'addasiadau rhesymol' (o dan darpariaethau **Deddf Cydraddoldeb 2010**) yn parhau i fod yn berthnasol i natur y drafnidiaeth neu'r trefniadau teithio a wneir gan yr awdurdod lleol o dan Fesur 2008. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau a wna yn caniatáu i ddysgwyr anabl elwa yn yr un modd a'r rhai nad ydynt yn anabl - er enghraifft, drwy sicrhau bod y cludiant a gaiff ei ddarparu yn hygyrch ac yn ddiogel ar gyfer y dysgwr anabl.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd awdurdod lleol rhag codi tâl am addasiadau rhesymol y mae wedi'u gwneud ar gyfer dysgwyr anabl.

# 8. Diogelwch

## Mae Canllawiau 2014 yn nodi bod 'diogelwch plant yn hollbwysig' a'i bod yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu addasrwydd teithio i ddysgwyr rhwng y cartref a lleoliadau addysg neu hyfforddiant.

Wrth asesu anghenion y dysgwr, mae'r canllawiau'n rhestru nifer o bethau y mae'n ofynnol i awdurdod lleol eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys 'natur y llwybr y disgwylir i'r dysgwr ei gymryd rhwng y cartref a'r lleoliadau lle y cynhelir yr addysg neu'r hyfforddiant ar eu cyfer.

At ddiben Canllawiau 2014, diffiniodd Llywodraeth Cymru ar y pryd y term 'teithio diogel' i olygu "darparu trefniadau teithio priodol i sicrhau, mor ymarferol â phosibl, nad yw'r teithiwr mewn perygl, boed yn wybyddus neu'n annisgwyl, a allai achosi trawma a/neu niwed iddo neu i unigolion eraill".

Nid yw'r Mesur na'r Canllawiau yn cyfeirio'n benodol at asesiadau o lwybrau peryglus o ran llwybrau cerdded i fannau casglu. Fodd bynnag, yn 2015, **mewn llythyr at holl Aelodau'r Cynulliad**, dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd, bod rhaid sicrhau bod y llwybr cerdded a'r cludiant ei hun ar gyfer y dysgwr yn addas, pan fo trefniadau teithio a wneir gan awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i blant gerdded i fannau casglu ar gyfer cludiant dysgwyr, ac oddi yno.

Mae canllawiau ynghylch asesu risg contractau gwasanaethau ysgol penodedig i'w cael yng nghanllaw Llywodraeth Cymru **Asesiadau risg cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol** (2009).

# 9. Codi tâl am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol

## Mae amgylchiadau rhagnodedig lle gall awdurdodau lleol godi tâl am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol, neu beidio.

Ni chaniateir i awdurdodau lleol godi tâl am drefniadau cludiant y mae dyletswydd arnynt i'w gwneud ar gyfer plant sydd mewn oedran ysgol gorfodol, ac eithrio mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal lle mae'r awdurdod yn gwneud trefniadau teithio ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol arall. Yn yr achosion hyn, gall adennill costau gan yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn.

Pan fydd awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau i ddarparu trefniadau cludiant yn ôl ei ddisgresiwn ar gyfer dysgwyr nad oes ganddynt hawl i ddarpariaeth cludiant am ddim gellir codi tâl am y trefniadau hyn.

O ran dysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol, nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran codi tâl. O ran dysgwyr sydd o oedran ysgol gorfodol, rhaid codi tâl yn unol ag adrannau 455 a 456 o **Ddeddf Addysg 1996**.

Gallai dysgwyr anabl fod â gofynion cludiant penodol (neu mae angen addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Addysg 2010 ar gyfer hyn) a allai arwain at gynnydd yn y costau cludiant. Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd awdurdod rhag codi tâl am addasiadau rhesymol y mae wedi'u gwneud ar gyfer dysgwyr anabl. Er enghraifft, pan fo angen hebryngwr neu gerbyd arbenigol ar ddysgwr, ni all yr awdurdod godi tâl ychwanegol am y trefniadau hynny oherwydd eu bod yn costio mwy i'w darparu.

# 10. Cymorth ariannol ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol

## Rhestrir isod rai ffynonellau ariannol posibl i helpu i dalu costau cludiant dysgwyr.

Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdod lleol i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 sy'n parhau â'u hastudiaethau mewn addysg neu hyfforddiant pellach prif ffrwd. Fodd bynnag, fel y trafodwyd ym Mhennod 5,  mae ganddo bwerau dewisol i wneud hynny.

### Cynllun teithio bws £1 i blant a phobl Ifanc

Cyflwynodd Llywodraeth flaenorol Cymru docynnau bws rhatach i bobl ifanc 16-21 oed ym mis Medi 2025, sy'n golygu bod tocynnau taith sengl yn £1 a thocynnau dydd yn £3. Rhaid i bobl ifanc 16-21 oed gael Fyngherdynteithio i gael y pris gostyngol. Estynnwyd y cynllun i blant 5-15 oed ym mis Tachwedd 2025, gyda thocynnau taith sengl yn £1 a thocynnau dydd yn £3. Nid oes angen Fyngherdynteithio ar blant 5-15 oed i gael y gostyngiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar **wefan Trafnidiaeth Cymru**.

### Lwfans Cynhaliaeth Addysg

Er nad yw'n benodol ar gyfer cludiant i ddysgwyr, gall pobl 16 i 18 oed mewn addysg amser llawn fod yn gymwys ar gyfer Lwfans Cynhaliaeth Addysg, sydd ar gael i helpu gyda chostau addysg yn yr oedran hwn.

Telir y Lwfans pob pythefnos ac mae'n werth £40 yr wythnos. Mae'n ddibynnol ar incwm yr aelwyd. Os mai'r myfyriwr yw'r unig blentyn dibynnol ar yr aelwyd, mae'n gymwys os nad yw incwm blynyddol yr aelwyd yn fwy na £24,570 (o fis Medi 2026). Os oes mwy nag un plentyn dibynnol ar yr aelwyd, maent yn gymwys os nad yw incwm blynyddol yr aelwyd yn fwy na £27,273 (o fis Medi 2006). Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

### Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach

Ffynhonnell arall o gyllid nad yw'n benodol ar gyfer teithio gan ddysgwyr ond y gellir ei defnyddio ar gyfer costau addysg dysgwyr 19 oed a hŷn yw Grant Dysgu

Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach. Mae hwn ar gael ar gyfer astudiaethau amser llawn a rhan-amser.

Rhaid i'r cwrs fod yn **lefel 3 neu is**, fel TGAU, Safon Uwch neu Safon UG, BTEC neu NVQ. Rhaid i'r coleg neu'r man astudio hefyd fod yn rhan o gynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach.

Mae'r grant hefyd yn seiliedig ar **swm incwm aelwyd y myfyriwr**. Mae'n rhaid i incwm aelwyd y myfyriwr fod yn £18,370 neu lai er mwyn derbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach. Mae faint o gyllid y gallai dysgwr ei gael yn dibynnu ar nifer o drothwyon incwm ac a ydynt yn astudio'n rhan-amser neu'n amser llawn. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn

Arian wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru yw'r **Gronfa Ariannol Wrth Gefn** fel y gall colegau yng Nghymru helpu dysgwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol, neu sy'n debygol o adael eu haddysg. Mae rhai colegau'n galw'r arian hwn yn Gronfeydd Cymorth i Fyfyrwyr neu'n Gronfeydd Caledi Myfyrwyr.

**Mae'r arian yn cael ei roi i golegau** felly nhw sydd i'w weinyddu yn ôl eu disgresiwn. Mae pob coleg yn gyfrifol am ddosbarthu'r cyllid i sicrhau y gellir teilwra'r cymorth i anghenion eu dysgwyr. Cyhoeddodd Medr (corff hyd braich Llywodraeth Cymru, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) **ganllawiau ar y Gronfa Ariannol Wrth Gefn**.

Mae'r arian ar gael, ar y cyfan, i fyfyrwyr i'w cynorthwyo gyda gofal plant, llyfrau, offer a chostau cludiant. Caiff yr arian ei weinyddu gan y sefydliadau unigol. Dylai myfyrwyr gysylltu â'u coleg i gael rhagor o wybodaeth.

# 11. Datblygiadau diweddar

## Mae cludiant rhwng y cartref a'r ysgol / Teithio gan Ddysgwyr yn faes sydd wedi bod yn destun trafod ac adolygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cafodd **gwaith dadansoddi a gwerthuso mewnol ynghylch teithio gan ddysgwyr** ei gynnal gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod 2023. Dywedodd yr adroddiad argymhellion, ym mis Mawrth 2024, o ystyried y diwygiadau arfaethedig ar gyfer strwythur y diwydiant bysiau (erbyn hyn, **Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026**) a heriau sylweddol ynghylch pwysau cyllidebol, ni ddylai fod "unrhyw ddiwygiad ar unwaith" i'r ddeddfwriaeth teithio gan ddysgwyr (Mesur 2008).

Un o argymhellion yr adolygiad oedd diweddaru Canllawiau 2014, yn bennaf i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi sydd wedi digwydd ers i'r canllawiau ddod i rym neu egluro gofynion yn ymwneud â deddfwriaeth a oedd ar waith ar y pryd.

Gwnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru gynnal ymgynghoriad **ar ganllawiau diwygiedig** rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2025 ac, **er nad yw'r gyfraith sy'n sail i deithio gan ddysgwyr wedi newid,** **dywedodd mai ei hamcan** oedd bod y canllawiau diwygiedig:

- yn gyson â'r datblygiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014;
- yn esbonio'r cludiant a ddarperir i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- yn gwneud y canllawiau ar gyfer adran 10 (hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg) ac adran 11 (hyrwyddo teithio cynaliadwy) o Fesur 2008 yn gliriach;
- yn adlewyrchu rhai o'r arferion da sydd wedi'u gweld ledled Cymru i annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng partneriaid cyflawni.

Roedd **Llywodraeth flaenorol Cymru wedi bwriadu** cyhoeddi'r canllawiau wedi'u diweddaru cyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026, ond ni ddigwyddodd

hynny. Dywedodd Llywodraeth newydd Cymru **y bydd yn adolygu'r ddeddfwriaeth teithio gan ddysgwyr**, sy'n dilyn **addewid ym maniffesto Plaid Cymru** i:

> *adolygu'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cynifer o deuluoedd â phosib yn gallu cael gafael ar gludiant i'r ysgol, gan fynd i'r afael â rhwystrau penodol sy'n atal pobl rhag cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.*

# 12. Ble i gael rhagor o wybodaeth

## Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am drefniadau teithio.

Rhaid i hyn gynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- y polisi cyffredinol am gludiant am ddim;
- y polisi cyffredinol am gludiant i ddysgwyr na ddarperir cludiant am ddim ar eu cyfer;
- yr amgylchiadau ar gyfer gwneud taliadau teithio rhesymol; a'r
- trefniadau a pholisïau ar gyfer dysgwyr sydd ag anableddau neu anawsterau dysgu

Rhaid sicrhau bod yr wybodaeth ar gael erbyn 1 Hydref yn y flwyddyn academaidd cyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi. (er enghraifft, rhaid cyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â blwyddyn academaidd 2027/28 erbyn 1 Hydref 2026).

Hefyd, rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a chyngor am ddim pan wneir cais amdanynt sy'n ymwneud â'r materion a ganlyn:

- asesu anghenion cludiant dysgwyr;
- addasrwydd trefniadau cludiant;
- penderfyniadau o ran a yw llwybr 'ar gael';
- penderfyniadau o ran a oes angen trefniadau cludiant er mwyn hwyluso plentyn i fynychu lleoliad perthnasol bob dydd lle mae'n cael ei addysg neu hyfforddiant; a
- phenderfyniadau i wneud trefniadau teithio gan ddefnyddio pwerau yn ôl disgresiwn.

Ar y cyfan, mae gwefannau awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am drefniadau cludiant ysgolion yn eu gwybodaeth am dderbyniadau, fel yr

argymhellir gan Lywodraeth Cymru. Nod hyn yw helpu rhieni i ddeall unrhyw oblygiadau cost o ran unrhyw ddewis y gallent ei wneud am ysgol eu plentyn.